
 Dylunio deunyddiau gweithgynhyrchu T805

Patrwm cyflwyno O fis Mai i fis Hydref

Disgrifiad o'r modiwl

Cyflwyno prosesu deunyddiau o safbwynt peiriannydd dylunio, mae'r modiwl hwn yn archwilio sut i wneud cydrannau. Rhoddir pwyslais ar y rhyngweithio rhwng gweithgynhyrchu, deunyddiau a dylunio yn hytrach nag astudio pob un ar wahân. Nodwyd y prif lwybrau at weithgynhyrchu cydrannau – castio, ffurfio, torri ac asio – mewn cyd-destun busnes sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn effeithiol, ac mae'r deunyddiau astudio yn cynnwys banc data o brosesau gweithgynhyrchu sy'n datblygu'n barhaus.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad ymarferol sylweddol (h.y. diwydiannol neu fasnachol) mewn o leiaf dau o'r meysydd canlynol: gweithgynhyrchu, deunyddiau neu beirianeg dylunio
- seiliau damcaniaethol, hyd at lefel gradd o leiaf, mewn un o'r meysydd canlynol: gweithgynhyrchu, deunyddiau neu beirianeg dylunio
- profiad sylweddol o gynhyrchu cydrannau peirianeg, mewn naill ai amgylchedd addysgu neu amgylchedd diwydiannol
- gallu profedig i addysgu technegau gweithgynhyrchu uwch, ar lefel ôl-raddedig, yng nghyd-destun dulliau mwy traddodiadol
- hyder mewn addysgu ar-lein a brwdfrydedd dros wneud hynny.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes pwnc perthnasol.
- Profiad o addysgu ôl-raddedig neu mewn rhaglenni hyfforddi proffesiynol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae T805 yn enghraifft o ddull o ddysgu ar-lein lle ceir lefel uchel o ryngweithio rhwng y dysgwr a'r deunyddiau ar-lein, lle y mae angen cymorth priodol gennych chi fel tiwtor. Dylech felly ddisgwyl cael cysylltiad â'r myfyriwr yn aml wedi ei strwythuro ar sail rhyngweithio o'r fath. Bydd elfen o'r broses asesu yn seiliedig ar gyfraniad y myfyriwr i'r adnoddau dysgu a bydd ymglyfarwyddo â'u gwaith dros y cyfnod cyn cyflwyno aseiniadau yn ffurfiol yn hwyluso eich proses o farcio'r gwaith y maent wedi'i gyflwyno.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6